
## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu hefyd yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal â hynny, mae'n rhwymedigaeth strategol ystyried yn llawn sut mae ein gwaith yn effeithio ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema sy'n berthnasol i'w gilydd yn strategaeth Cymraeg 2050:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas y gweithgarwch sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Fel rheol, os oes posibilrwydd y gallai eich polisi'n effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg ei hunan.

1. Rhif cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith (wedi'i gwblhau gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

**Cod clirio: 13/12/2025**

2. A oes cysylltiad clir rhwng y cynnig a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a’r rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos aliniad ystyrlon, os ymhlyg, â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*, a'r rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026. Er mai prif ffocws y cynigion yw gwella gwasanaethau mabwysiadu, maethu, a gofal gan berthynas ledled Cymru, mae sawl elfen yn cefnogi'r nodau ehangach o hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Yn gyntaf, mae'r ymgynghoriad ei hun yn ddwyieithog, gydag ymrwymiad clir i drin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ar gael yn Gymraeg, ac mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol sydd wedi'i hymgorffori yn *Cymraeg 2050*, ac mae'n sicrhau y gall rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

Mae'r cynigion hefyd yn ystyried *Mwy na geiriau*, strategaeth Llywodraeth Cymru i gryfhau a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

O ran y cynigion eu hunain, mae sawl maes yn cynnig cyfleoedd i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ymarferol:

- **Gwasanaethau cymorth mabwysiadu a maethu**: Nod y newidiadau rheoleiddiol arfaethedig yw symleiddio mynediad at wasanaethau cymorth, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela a therapiwtig. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn bersonol iawn ac yn sensitif yn ddiwylliannol, ac mae'r gallu i'w cynnig yn Gymraeg yn hanfodol i lawer o unigolion. Er nad yw'r cynigion yn cyfeirio'n benodol at ddarpariaeth Gymraeg, dylai ehangu hygyrchedd gwasanaethau gynnwys ystyried darpariaeth ddwyieithog, gan gynnwys darparu'r cynnig gweithredol o gymorth Cymraeg er mwyn i gleifion, teuluoedd, ac unigolion sy'n siarad Cymraeg gael mynediad hawdd at y gofal, y gwasanaethau, a'r gefnogaeth angenrheidiol yn Gymraeg, heb orfod gofyn, yn enwedig oedolion sydd wedi'u mabwysiadu a theuluoedd sy'n ceisio cymorth therapiwtig.
- **Prosesau cynllunio ac adolygu gofal**: Mae diwygiadau i God Ymarfer Rhan 6 yn pwysleisio pwysigrwydd llais y plentyn wrth gynllunio gofal a chymorth. I blant sy'n siarad Cymraeg, rhaid i hyn gynnwys yr hawl i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith. Mae'r newidiadau arfaethedig i gryfhau canllawiau ar leoliadau, adolygiadau, a rôl swyddogion adolygu annibynnol yn cynnig cyfle gwerthfawr i ymgorffori ystyriaethau Cymraeg mewn arferion bob dydd.
- **Diwygio gofal maeth gan berthynas**: Mae creu fframwaith asesu ar wahân ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthynas a chyflwyno trefniadau adolygu ac ymweld mwy hyblyg yn gyfle i ganolbwyntio ar yr unigolyn a bod yn ymatebol i anghenion unigol. Gallai'r newidiadau hyn gefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith, drwy ganiatáu trefniadau gofal sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, yn enwedig mewn teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf.

- **Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig**: Mae'r cynnig i wneud y defnydd o dempledi cynlluniau cymorth yn statudol ledled Cymru yn gyfle clir i sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried mewn modd cyson wrth ddatblygu ac adolygu cynlluniau cymorth.

Yn olaf, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau penodol sy'n gwahodd adborth ar effaith y cynigion ar y Gymraeg. Mae hynny'n dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynhwysiant ieithyddol ac yn darparu mecanwaith i randdeiliaid dynnu sylw at gyfleoedd a risgiau.

Gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg/dwyieithog a hawliau ieithyddol plant a theuluoedd, mae gan y diwygiadau hyn y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at uchelgais Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg ac ymgorffori'r iaith ym mywyd bob dydd.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, gan esbonio sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Mae gweithredu'r newidiadau ar draws gwasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas, a gwarcheidiaeth arbennig yn creu sawl cyfle i gryfhau gwelededd, hygyrchedd a chynaliadwyedd y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus. Cafwyd ymatebion yn ymwneud â'r Gymraeg i'r ymgynghoriad. Bydd crynodeb llawn o'r ymatebion, sy'n cynnwys adborth ar y Gymraeg, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r asesiad hwn.

### Effaith ar siaradwyr Cymraeg o bob oed

Nod y diwygiadau arfaethedig yw gwella mynediad at wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed, gan gynnwys cwnsela, gwasanaethau therapiwtig, a chynllunio gofal.

*Mwy na geiriau* yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Nod canolog y strategaeth yw ymgorffori'r cynnig gweithredol mewn gwasanaethau fel bod cleifion, teuluoedd ac unigolion sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad hawdd at y gofal, y gwasanaethau, a'r cymorth angenrheidiol yn y Gymraeg, heb orfod gofyn.

I blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg, mae'r gallu i gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol, llesiant emosiynol, a hunaniaeth ddiwylliannol. Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer cynnwys llais y plentyn mewn prosesau cynllunio ac adolygu gofal, yn enwedig yn fersiwn ddiwygiedig Cod Ymarfer Rhan 6, sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu mynegi eu hunain yn Gymraeg lle mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith.

Ar gyfer oedolion sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu, gall y cynnig i ddileu gofynion cofrestru AGC ar gyfer cwnselwyr a therapyddion gynyddu argaeledd gwasanaethau cymorth, gan gynnwys y rhai sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg**

Trwy wella hygyrchedd a hyblygrwydd trefniadau gofal, yn enwedig o fewn cyd-destunau gofal gan berthynas a maethu, mae'r cynigion yn helpu teuluoedd i aros yn eu cymunedau. Mewn ardaloedd Cymraeg, gall hynny helpu i gynnal y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd teuluol a chymunedol. Mae'r pwyslais ar osod plant yn agos at adref ac o fewn rhwydweithiau cyfarwydd yn cyd-fynd â nodau *Cymraeg 2050* i gryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith.

**Effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr**

Er nad yw'r cynigion yn mynd i'r afael ag addysg yn uniongyrchol, maent yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn anuniongyrchol trwy hyrwyddo sefydlogrwydd mewn lleoliadau a lleihau tarfu ar fywydau plant mewn gofal. Gall lleoliadau sefydlog o fewn teuluoedd neu gymunedau Cymraeg eu hiaith helpu i sicrhau parhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi dysgwyr Cymraeg o bob oedran.

**Effaith ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg**

Mae'r cynigion yn effeithio ar ystod eang o wasanaethau - gofal cymdeithasol, cymorth therapiwtig, a swyddogaethau awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig yn weithredol yn Gymraeg, bydd yn bwysig ymgorffori Safonau'r Gymraeg a *Mwy na geiriau*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynu, hyfforddi, a darparu gwasanaethau. Nod canolog y strategaeth *Mwy na geiriau* yw ymgorffori'r cynnig gweithredol mewn gwasanaethau, fel bod cleifion, teuluoedd ac unigolion sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad hawdd at y gofal, y gwasanaethau, a'r gefnogaeth sydd eu hangen yn Gymraeg heb orfod gofyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth, cynlluniau cymorth a dogfennau canllaw ar gael yn ddwyieithog, a bod gweithwyr proffesiynol â'r gallu i gynnig a darparu gwasanaethau yn Gymraeg lle bo angen.

Mae pwysigrwydd datblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg staff yn thema allweddol yn y strategaeth. Mae cyrsiau Cymraeg ar gael i staff yn y sector iechyd a gofal, gan gynnwys cyrsiau meithrin hyder a chyrsiau rhagarweiniol. Mae staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i wella eu sgiliau Cymraeg.

**Sicrhau Ymwybyddiaeth a Mynediad**

Er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau Cymraeg, ac yn cael cynnig gwasanaethau a chymorth yn yr iaith honno, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo opsiynau gwasanaeth dwyieithog mewn modd clir ym mhob deunydd ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth yn cyfathrebu ac yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod defnyddwyr gwasanaeth yn gorfod gofyn.

- Sicrhau bod teuluoedd ac unigolion sy'n siarad Cymraeg yn gallu rhannu eu profiadau yn Gymraeg.

Mae tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg, ymarferwyr, a grwpiau â diddordeb, megis adborth gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac AFKA Cymru, wedi helpu i ddatblygu'r cynigion hyn. Fodd bynnag, bydd ymgysylltu pellach â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn cryfhau'r asesiad, gan helpu i nodi bylchau penodol yn y ddarpariaeth.

**Mesur Llwyddiant**

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy'r canlynol:

- Mwy o fynediad at wasanaethau Cymraeg ar draws gofal mabwysiadu a maethu, a gofal gan berthynas.
- Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith.
- Mwy o gysondeb wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog ledled Cymru.
- Gwell canlyniadau i blant a theuluoedd, gan gynnwys y rheini mewn teuluoedd Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith.